



10 Tachwedd 2020

Annwyl gyfaill

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau fy mwriad i gyfarwyddo Cymwysterau Cymru na ddylid cael arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2021.

Y prif reswm dros fy mhenderfyniad yw tegwch; bydd yr amser y bydd dysgwyr yn ei dreulio mewn ysgolion a cholegau yn amrywio'n aruthrol ac, yn y sefyllfa hon, mae'n amhosibl gwarantu chwarae teg i arholiadau ddigwydd.

- Yn hytrach nag arholiadau, bwriadwn weithio gydag ysgolion a cholegau i ddatblygu asesiadau a reolir gan athrawon.
- Dylai'r rhain gynnwys asesiadau a fydd yn cael eu gosod a'u marcio'n allanol, ond a ddarperir mewn amgylchedd ystafell ddosbarth o dan oruchwyliaeth athrawon.
- Fy nisgwyliad i yw y bydd y rhain yn sail i ganlyniadau sy'n seiliedig ar ganolfannau a fydd yn gysylltiedig ag ymagwedd genedlaethol gytûn i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Rwyf wedi clywed drosom fy hun gan lawer o ddysgwyr am ba mor bryderus ydynt am y posibilrwydd o sefyll arholiadau a'r pwysau y maent yn teimlo oddi tano i ymgymryd â chymaint o gynnwys cwrs ag sy'n bosibl.

Rwyf wedi bod yn glir o'r dechrau mai fy mhrif flaenoriaeth ar gyfer unrhyw ddull o ymdrin â chymwysterau yn 2021 yw sicrhau bod dysgwyr mewn blynyddoedd arholiad yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen yn hyderus i'w camau nesaf – boed hynny'n gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg uwch a bellach.

Mae dileu arholiadau yn rhyddhau tymor cyfan yr haf, sydd fel arfer yn canolbwyntio ar baratoi am, a sefyll arholiadau, ar gyfer addysgu a dysgu ychwanegol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni wedi'i sefydlu a bydd yn cyfarfod yr wythnos hon, dan gadeiryddiaeth Geraint Rees. Bydd y dull arfaethedig o ymdrin â chanlyniadau mewn canolfannau, proses apelio a threfniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat, yn cael ei ddatblygu gan y grŵp hwn, sy'n cynnwys arweinwyr ysgolion a cholegau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac a gynghorir gan Gymwysterau Cymru a CBAC.

Fy mwriad yw cwblhau'r gwaith hwn ym mis Rhagfyr fel y gellir rhoi canllawiau a deunyddiau ategol ar waith ar gyfer dechrau tymor y gwanwyn

Er bod hyn yn digwydd gyda'r bwriad gorau, sicrhaf ichi na fydd angen i'r gweithgareddau asesu cyntaf ddechrau tan hanner olaf tymor y gwanwyn.

Rydym wedi ymgysylltu â phrifysgolion ledled y DU ac wedi cael sicrwydd na fydd y penderfyniad hwn yn rhoi dysgwyr o Gymru dan anfantais cyd â bod ein trefniadau amgen yn gadarn ac yn dryloyw, ac rwy'n hyderus y byddant.

Mae'r sefyllfa ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn fwy cymhleth a bydd angen gwaith ychwanegol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Cymwysterau Cymru wrth iddynt weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau ymagwedd bragmatig sy'n gweithio er budd dysgwyr ac sy'n rhoi eglurder iddynt ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Ysgrifennaf atoch eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynnydd.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education